



Ysgol Gymraeg Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Medi 28ain, 2012

Presennol

*Mrs Williams, Miss Llwyd,
Robert Gorman, Sara Fflur Griffiths,
Dylan Skym, Gwenllian Thomas,
Rhianedd Owen, Sara ap Robert John,
Llŷr Eirug, Erin Davies,
Elen Llywelyn Evans, Dylan James-Williams*

Agenda

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

Croesawodd Robert Gorman, Cadeirydd y Cyngor Ysgol am y flwyddyn 2012-2013, bawb i'r cyfarfod.

2. Cadarnhau swyddogion Blwyddyn 6

Cadarnhawyd rôl pob un o swyddogion Blwyddyn 6 ar gyfer y flwyddyn nesaf, sef Robert Gorman – Cadeirydd, Gwenllian Thomas – Is-Gadeiryddes, Sara Fflur Griffiths – Ysgrifenyddes a Dylan Skym – Trysorydd. Esboniodd pob un o'r swyddogion yn fras beth fyddai eu dyletswyddau wrth weddill aelodau'r Cyngor Ysgol.

3. Adolygu gweithgarwch y Cyngor Ysgol ers cychwyn y tymor newydd

Trafodwyd y gweithgareddau mae'r Cyngor Ysgol wedi bod ynghlwm â hwy ers cychwyn y tymor newydd:

- Ethol y swyddogion, a Mr Williams yn eu cyflwyno i weddill disgyblion yr ysgol yn y Gwasanaeth;
- Swyddogion Blwyddyn 6, gyda Mr Williams a Mr James, yn mynd i weld plac yn cael ei ddadorchuddio ar safle cyntaf yr Ysgol Gymraeg ar Ffordd Llanbadarn;
- Ysgrifennu llythyron o ddiolch i ymwelwyr a ddaeth i'r ysgol ar ddiwrnod dathlu pen-blwydd yr Ysgol Gymraeg yn 73 oed;
- Holi disgyblion ein dosbarthiadau am awgrymiadau ar sut i wella'r ysgol/pwyntiau i'w trafod yn y cyfarfodydd.

4. Tudalen y Cyngor Ysgol ar wefan yr ysgol

Edrychwyd ar y dudalen mae Mr James wedi ei chreu yn arbennig am y Cyngor Ysgol ar wefan yr ysgol. Mae lluniau pob un o'r aelodau arni, a bydd cofnodion pob cyfarfod ac unrhyw ddarnau ysgrifenedig

arall am weithgarwch y Cyngor Ysgol yn cael eu hychwanegu yno'n gyson. Dywedodd Sara y byddai cofnodion y cyfarfod heddiw yn barod erbyn diwedd y dydd.

5. Diwrnod Rhyngwladol

Penderfynwyd y byddai Robert a Gwenllian, fel y Cadeirydd a'r Is-Gadeiryddes, yn atgoffa disgyblion CA2 i gyd am drefniadau'r Diwrnod Rhyngwladol yng ngwasanaeth CA2 ar ddydd Llun Hydref 1af, ac y byddai Sara a Rhianedd, aelodau Blwyddyn 5, yn atgoffa plant CA1 yn eu gwasanaeth nhw ar ddydd Mawrth, Hydref 2il.

6. Awgrymiadau disgyblion

Trafodwyd awgrymiadau rhai o'n cyd-ddisgyblion am ffyrdd o wella'r ysgol:

- Mwy o finiau sbwriel ar yr iard (Bl.6)
- Stondin gwerthu smwddis amser chwarae (Bl.6)
- Toiledau taclusach/glanach; annog plant i barchu'r toiledau yn fwy (Bl.3)
- Gostwng prisiau'r siop ffrwythau (Bl.4)
- Cynnal diwrnod dillad ein hunain i godi arian i elusen (Bl.5)
- Mwy o adnoddau amser chwarae/ardaloedd penodol i wahanol flynyddoedd/ail-gychwyn amserlen pêl-droed amser chwarae (Bl. 5 a 6).

Byddwn yn cyflwyno'r pwyntiau uchod i Mr Williams er mwyn iddo eu hystyried.

7. Amserlen cyfarfodydd

Penderfynwyd y byddwn yn cwrdd bob pythefnos/tair wythnos i drafod unrhyw faterion sy'n codi. Bydd Mr Williams yn cyhoeddi dyddiadau'r cyfarfodydd yn y Gwasanaeth, a bydd swyddogion Blwyddyn 6 yn mynd o gwmpas i atgoffa gweddill yr aelodau ar fore'r cyfarfod.

Diolchodd Robert i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Hydref 19^{eg} 2012

Cofnodion gan Sara a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is-Gadeiryddes).